



Ymgynghoriad ar Ysgolion Catholig



Adroddiad Ymgynghori Plant a Phobl Ifanc



Cynllunio a Darpariaeth Ysgolion
School Planning and Provision

MAE EICH LLAIS YN BWYSIG



Beth Rydym Wedi'i Glywed a Beth Sy'n Digwydd Nesaf

Am Beth Oedd yr Ymgynghoriad yn Sôn?

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn i bobl beth oedd eu barn am y cynlluniau i:

- Gau Ysgol Gynradd Gatholig Sant Anthony
- Dod ag Ysgol Dewi Sant, Ysgol y Santes Fair ac Ysgol Richard Gwyn ynghyd
- Creu ysgol Gatholig newydd i blant a phobl ifanc 3-18 oed
- Adeiladu ysgol newydd sbon yn y Fflint yn y dyfodol



Nid oes penderfyniad terfynol wedi ei wneud eto.

Pwy Rannodd eu Barn?

Clywsom gan:

- Ddisgyblion
- Rhieni a gofalwyr
- Athrawon a staff
- Llywodraethwyr
- Aelodau o'r gymuned
- Cynrychiolwyr yr eglwys
- Undebau Llafur
- Estyn



Cafodd barn pawb ei ystyried yn ofalus.

Beth Ddywedodd Pobl?

Roedd llawer o bobl yn hoffi'r syniad o gael:

- Ystafelloedd ddosbarth newydd
- Cyfleusterau modern
- Gwell gofodau chwaraeon a dysgu
- Mwy o adnoddau ac offer
- Ysgol sydd wedi'i dylunio ar gyfer y dyfodol



Roedd llawer o bobl hefyd yn poeni am:

Golli eu hysgol bresennol

Bod yn bellach i ffwrdd o'r ysgol

Gadael ffrindiau ac athrawon

Newidiadau i gymunedau ysgol

Siwrneiau hirach i'r ysgol



Beth Mae Plant a Phobl Ifanc Wedi'i Ddweud Wrthym Ni?

Dywedoch chi wrthym ni eich bod chi'n caru eich ysgol oherwydd:

- Eich athrawon
- Eich ffrindiau
- Gweithgareddau a thripiâu ysgol
- Teimlo'n ddiogel ac yn cael cefnogaeth
- Bod yn rhan o gymuned eich ysgol
- Cyfleoedd i ddysgu pethau newydd



Beth All Fod yn Dda am y Cynnig?

Dywedodd rhai o'r disgyblion y gall ysgol newydd olygu:

- Gwell gofodau dysgu
- Gwell cyfleusterau chwaraeon
- Mwy o adnoddau ac offer
- Cyfleoedd i wneud ffrindiau newydd
- Dosbarthiadau arbenigol
- Mwy o weithgareddau a chlybiau
- Adeiladau ysgol modern



Beth Oedd y Disgyblion yn Poeni Amdano?

Dywedodd llawer o'r disgyblion wrthym eu bod yn poeni am:

- Adael ffrindiau
- Gadael hoff athrawon
- Teithio'n bellach
- Addasu i ysgol wahanol
- Teimlo'n nerfus am y newid
- Colli rhan o'r hyn sy'n gwneud eu hysgol bresennol yn arbennig

Rydym wedi gwrandao ar y pryderon hyn ac wedi'u hystyried yn ofalus.



Sut Wnaethom Ddefnyddio eich Barn?

Roedd eich barn yn ein helpu ni i ddeall beth sydd bwysicaf i blant a phobl ifanc.

Mae'r Cyngor a'r Esgobaeth yn cydnabod pwysigrwydd:

- Cefnogi lles
- Helpu plant i deimlo'n ddiogel
- Cynnal cyfeillgarwch
- Cynllunio cyfnodau pontio'n ofalus
- Diogelu'r pethau cadarnhaol sy'n gwneud bob ysgol yn arbennig



Beth Mae'r Cyngor yn ei Feddwl Nawr?

Ar ôl adolygu'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad, mae'r Cyngor a'r Esgobaeth wedi penderfynu nad yw eu hasesiad o'r cynnig wedi newid.

Maen nhw dal yn credu y gall y cynnig:

- Wella amgylcheddau dysgu
- Darparu gwell cyfleusterau
- Gwellu cysylltiadau rhwng gwahanol grwpiau oedran
- Cefnogi addysg Gatholig yn y dyfodol



Fodd bynnag, mae'r holl bryderon a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad wedi'u cofnodi a'u hystyried.

Beth sy'n Digwydd Nesaf?

Bydd y Cyngor a'r Esgobaeth yn awr yn penderfynu p'un ai i symud i'r cam nesaf neu beidio.

Os byddant yn penderfynu parhau:

- Bydd Hysbysiad Statudol yn cael ei gyhoeddi.
- Bydd gan unigolion gyfle arall i wrthwynebu'n ffurfiol.
- Yna bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud.




Diolch

Mae pob barn yn bwysig.

Diolch yn fawr i bawb a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad ar ddyfodol addysg Gatholig yn Sir y Fflint.

Mae eich syniadau, eich cwestiynau a'ch barn wedi ein helpu ni i ddeall beth sy'n bwysig i blant a phobl ifanc.



Diolch am gymryd rhan!

Cyngor Sir y Fflint

Esgobaeth Wrecsam

Y Tîm Moderneiddio Ysgolion

DIOLCH!